NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Symbylu'r nerfau isdafodol ar gyfer apnoea cwsg rhwystrol cymedrol i ddifrifol

22 Tachwedd 2017

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw ar gyfer apnoea cwsg rhwystrol difrifol. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau.

Mae apnoea cwsg rhwystrol yn achosi i'r anadlu stopio dro ar ôl tro am gyfnodau byr yn ystod cwsg. Mae'n digwydd am fod y cyhyrau a'r meinweoedd meddal yn y gwddf yn ymlacio gormod yn ystod cwsg. Gall y tafod syrthio'n ôl a chyfrannu at gyfyngder y llwybr anadlu uchaf. Yn y driniaeth hon caiff dyfais ei mewnblannu o dan y croen yn y frest. Mae wedi'i chysylltu â nerf o dan y tafod (nerf isdafodol) drwy wifren, sy'n rheoli cyhyrau yn y tafod a'r llwybr anadlu. Mae'r ddyfais yn anfon ysgogiadau trydanol i'r nerf, sy'n gwneud i'r tafod gywasgu a'i rwystro rhag syrthio'n ôl. Y nod yw cadw'r llwybr anadlu ar agor yn ystod cwsg.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2734-0

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights